



Mae CThEM wedi rhyddhau ffigurau masnach y DU yn ddiweddar ar gyfer 6 mis cyntaf 2024. Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y ffigurau hyn yn fanylach.



Glesni Phillips - Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes

Yn ystod chwe mis cyntaf 2024, cynyddodd cynhyrchiant cig eidion yn y DU 2% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2023, yn ôl data Defra. Ar y llaw arall, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y cig defaid, gan ostwng 8% yn is na lefelau 2023. Mae'r cynnydd mewn cynhyrchiant cig eidion yn cael ei briodoli i gynydd o 2%

Yng nghyfanswm y trwybwn, tra bod nifer y defaid a'r wŷn wedi'u prosesu wedi gostwng 10% o'i gymharu â hanner cyntaf 2023. Mae'r newidiadau hyn mewn cynhyrchiant domestig yn effeithio'n uniongyrchol ar argaeledd cig i'w allforio.

CIG EIDION

Yn ôl data CThEM, fe wnaeth y Deyrnas Unedig **allforio** bron i 56,000 tonnall o gig eidion ffres wedi'i rewi yn chwe mis cyntaf 2024, gan nodi cynnydd o 11% flwyddyn ar ôl blwyddyn. Fe wnaeth cyfanswm gwerth yr allforion hyn gynyddu o 9%, gan gyrraedd £265.6 miliwn. Ysgogwyd y cynnydd hwn mewn cyfaint allforio i raddau helaeth gan dwf nodedig mewn llwythi i'r Iseldiroedd, Hong Kong, a Chanada. Iwerddon oedd prif gyrchfan allforion cig eidion y DU o hyd, er iddo fewnforio 4% yn llai o gig eidion nag yn 2023, gyda chyfanswm cyfeintiau o 17,180 tonnall. Gyda chynhyrchiant cig eidion 2% yn uwch flwyddyn ar flwyddyn, mae'n debygol na fu prinder yn y cyflenwad i fodloni gofynion allforio.

Fe wnaeth **mewnforion** y DU o gig eidion ffres ac wedi rhewi hefyd godi yn ystod y cyfnod hwn, gyda *chyfeintiau* i fyny o 9% i 120,200 tonnall. Fe wnaeth gwerth y mewnforion hyn chwyddo o 13% bron, sy'n cyfateb i £681.6 miliwn. Cynyddodd Iwerddon, y prif gyflenwr, ei chyfran o fewnforion cig eidion y DU i 77%, i fyny o 72% y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd cyfaint cig eidion Iwerddon a fewnforiwyd o 16%, tuedd sy'n cael ei chefnogi gan adroddiad Bord Bia sy'n nodi bod cyflenwad digonol o wartheg yn Iwerddon, sy'n cael ei adlewyrchu yn y ffigurau masnach.

56,000 tonnall
+ 11% b-a-f
(lon-Meh 2024)

CIG DEFAID

Yn ystod chwe mis cyntaf 2024, fe wnaeth y Deyrnas Unedig **allforio** 37,400 tonnall o gig defaid ffres ac wedi'i rewi, sy'n ostyngiad o 8% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2023. Er gwaethaf y gostyngiad hwn yn y cyfaint, fe wnaeth cyfanswm gwerth yr allforion hyn godi o 9%, gan gyrraedd £293.7 miliwn. Mae'r cynnydd hwn mewn gwerth yn adlewyrchu prisiau gât y fferm cryf ledled y DU, hyd yn oed wrth i gynhyrchiant domestig weld gostyngiadau sylweddol. Roedd allforion yr UE a'r tu allan i'r UE i lawr flwyddyn ar flwyddyn, gydag Iwerddon a'r Almaen yn dangos y gostyngiadau mwyaf. Yn nodedig, roedd 95% o'r cyfaint a allforiwyd ar gyfer marchnadoedd yr UE. Gyda chyflenwad cig defaid y DU fel arfer yn cynyddu yn ail hanner y flwyddyn, efallai y bydd mwy o gynnyrch ar gael i'w allforio yn ddiweddarach yn 2024.

I'r gwrthwyneb, fe wnaeth **mewnforion** y Deyrnas Unedig o gig defaid ffres ac wedi'i rewi gynyddu o bron i 44% yn hanner cyntaf 2024, cyfanswm o 33,750 tonnall - cynnydd o 10,270 tonnall o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Sbardunwyd y cynnydd hwn gan fewnforion o Hemisffer y De, yn enwedig o Seland Newydd (7,800 tonnall ychwanegol) ac Awstralia (2,600 tonnall yn fwy). O ganlyniad, roedd NZ yn cyfrif am bron i 64% o'r cig defaid a fewnforiwyd i'r DU. Gellir priodoli'r cynnydd mewn mewnforion i bris is cig oen o Hemisffer y De, cyflenwad domestig tynn, ac effaith y Cytundeb Masnach Rydd newydd.

37,400 tonnall
- 8% b-a-f
(lon-Meh 2024)

PORC

Fe wnaeth cyfanswm cyfaint porc ffres ac wedi rhewi a **allforiwyd** o'r DU yn ystod chwe mis cyntaf 2024 ostwng o 4% flwyddyn ar flwyddyn i 61,500 tonnall. Gostyngodd gwerth yr allforion hyn hefyd, gan ostwng o 7% i £130.4 miliwn. Digwyddodd y gostyngiad hwn er gwaethaf data Defra yn dangos cynnydd o 1% mewn cynhyrchiant cig moch domestig yn ystod yr un cyfnod.

I'r gwrthwyneb, fe wnaeth **mewnforion** y Deyrnas Unedig o porc ffres ac wedi rhewi godi 2% mewn cyfaint, gan gyrraedd 165,120 tonnall, tra bod gwerth y mewnforion hyn wedi cynyddu 4%. Cyfrannodd Iwerddon a Gwlad Belg at y cynnydd hwn, gydag Iwerddon yn allforio 5,400 tonnall ychwanegol a Gwlad Belg 2,250 tonnall yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Yn y cyfamser, gwelodd yr Iseldiroedd leihad, gan allforio bron i 4,000 tonnall yn llai i'r DU o'i gymharu â 2023.

61,500 tonnall
- 4% b-a-f
(lon-Meh 2024)

Masnach yng Nghymru;

Mewn data diweddar ar fasnach yng Nghymru, mae allforion cig eidion ffres a rhewi wedi cynyddu'n sylweddol. Amcangyfrifir bod cyfaint y cig eidion sy'n cael ei allforio yn ystod y cyfnod 16% yn uwch o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, gan gyrraedd tua 9,000 tonnall. Mae gwerth y llongau hyn hefyd wedi codi 14%. Fodd bynnag, ar gyfer cig defaid ffres ac wedi rhewi, mae cyfyngiadau cyflenwi domestig wedi arwain at ostyngiad o 10% mewn cyfeintiau allforio, sydd bellach yn sefyll ar bron i 12,000 tonnall. Er gwaethaf y gostyngiad hwn, mae gwerth allforion cig defaid wedi cynyddu o 6%, wedi'i sbarduno gan brisiau gât y fferm cryfach.

ffynhonnell: Amcangyfrifon HCC yn seiliedig ar ddata CThEM

Beth mae hyn yn ei olygu i'r diwydiant?

Mae disgwyl i gyflenwadau cig eidion domestig aros yn sefydlog drwy gydol gweddill 2024. Gyda chyflenwadau cig eidion tynnach wedi'u hadrodd ledled yr UE, mae optimistiaeth y gallai rhai gwledydd gynyddu eu galw am fewnforio. Ar gyfer allforion defaid, mae potensial i adfer yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ar yr amod bod cyflenwad domestig yn gwella.

Crynodeb Misol y Farchnad

GWARTHEG

Prisiau – wythnos yn dod i ben 21 Medi

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **502.8c/kg**. Roedd hyn:

- +1.7c ar yr wythnos flaenorol,
- 29.2c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill fel a ganlyn -

- Heffrod: 499.0c/kg (+1.6c ar yr wythnos),
- Teirw ifanc: 491.5c/kg (+1.0c ar yr wythnos), a
- Buchod difa: 354.9c/kg (-1.2c ar yr wythnos).

Trwybwn – Awst 2024

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 221,600 pen – cynnydd o 1% ar y flwyddyn.
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 165,700 pen - i fyny 2% ar y flwyddyn.
 - bustych +1%, heffrod +3%, a theirw ifanc -1%.
- Cyfartaledd pwysau carcassau gwartheg dethol = 344.2kg (+3.5kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 49,600 pen - cynnydd o 0.3% ar y flwyddyn.

DEFAID

Prisiau – wythnos yn dod i ben 21 Medi

Cyfartaledd pris ŵyn pwysau marw ym Mhrydain oedd **641.1c/kg**. Roedd hyn:

- -1.8c ar yr wythnos flaenorol

Fe wnaeth y niferoedd oedd yn dod ar y farchnad gyrraedd 41,300 pen. Roedd hyn:

- +0.4% ar yr wythnos flaenorol, a
- -10% o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach.

Noder: Oherwydd newid ym methodoleg arolwg pwysau marw Prydain Fawr (o 25/11/2023) rydym yn argymhell bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau hanesyddol.

Trwybwn – Awst 2024

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.0 miliwn pen – i lawr 3% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 891,700 pen – i lawr 3% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcass ŵyn ar gyfartaledd = 17.6kg (-0.2kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 118,700 pen – i lawr 6% ar y flwyddyn.

MOCH


Prisiau – wythnos yn dod i ben 14 Medi

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn sefyll ar **211.9c/kg**. Roedd hyn:

- -0.3c ar yr wythnos flaenorol,
- -11.1c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 30.5c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 181.4c/kg).


Trwybwn – Awst 2024

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 888,600 pen – gostyngiad o 1% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 872,000 pen – i lawr 1% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcass moch heb fagu cyfartalog = 89.4kg (-0.1kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 16,500 pen – i lawr 6% ar y flwyddyn.




Cynhyrchiant Cig Eidion a Chig Llo y DU Awst '24

73,000 tunnell
+2% b-a-f



Cynhyrchiant cig defaid y DU Awst '24

21,600 tunnell
-10% b-a-f



Cynhyrchiant porc y DU Awst '24

80,500 tunnell
-0.5% b-a-f

